| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:**<br>**Report to:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:**<br>**Date:** | 08 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:**<br>**Subject:** | Diweddariad ar recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:**<br>**Head of Service:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd / Nature and Reason for Reporting:**<br><br>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r aelodau lleyg ychwanegol y mae eu hangen. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor, fel ar 25 Ionawr 2022, ar gynnydd o ran recriwtio aelodau lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiweddariad i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021, y gellir ei weld yn http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16895/Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20Cymru%202021.pdf?LLL=1

1.3 Mae'r Ddeddf yn diwygio'r gyfundrefn berfformiad a llywodraethu, gan gynnwys newidiadau i gyfansoddiad aelodaeth y pwyllgor a'r gweithgareddau (adrannau 116-118). Mae'r Ddeddf yn nodi:

- bod rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn lleygwyr a dau draean yn aelodau o'r Cyngor
- bod rhaid i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor yn Gadeirydd (a rhaid i'r sawl a benodir fod yn lleygwr); a

- bod rhaid i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor yn Ddirprwy Gadeirydd (ac ni chaiff fod yn aelod o bwyllgor gwaith yr awdurdod lleol neu'n gynorthwyydd i'r pwyllgor gwaith).

1.4 Mae 'lleygwr' yn cael ei ddiffinio gan adran 117 y Ddeddf fel person:

- nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,
- nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac
- nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol.

1.5 Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, mae hyn yn golygu y bydd rhaid cael pedwar aelod lleyg. Mae Mr Dilwyn Evans, sydd yn aelod lleyg ar hyn o bryd, wedi datgan ei fod yn fodlon gwasanaethu am ail dymor, felly bydd angen tri aelod lleyg ychwanegol.

## 2. CYNNYDD

2.1 Cymerodd y Cyngor ran yng Ngrŵp Tasg a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu ffurflen gais a hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau lleyg, yn ogystal â rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Fe weithiom gyda'n Tîm TG i ddatblygu ffurflen gais ar-lein yn benodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

2.2 Hysbysebwyd y swyddi gwag yn eang, gan gynnwys ar gyfryngau yr oedd pobl ieuengach yn debygol o'u defnyddio, megis Facebook a LinkedIn, yn unol â dyletswydd y Cyngor i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

2.3 Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar wefan CLlLC ar 10 Hydref 2021, ac roedd yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at dudalen we neilltuol y Cyngor. Rhoddodd CLlLC hysbyseb ar *Guardian Jobs* hefyd a'i chylchredeg ymysg rhwydweithiau proffesiynol (h.y. Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Cymru Gyfan, rhwydwaith cyfarwyddwyr anweithredol, alumni Arweinyddiaeth Comisiynydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyn-gyfranogwyr rhaglen fentora Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru / Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, yn ogystal â hyrwyddo ar *Wales Online*.

2.4 Derbyniodd y Cyngor 13 ffurflen gais. O gymharu â gweddill Cymru, roedd hyn yn ymateb da iawn. Cynhaliodd y panel rhestr fer, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr 2022. Dewisodd y panel bedwar ymgeisydd i'w cyfweld. Diystyrwyd chwe chais gan y Panel oherwydd eu bod yn anghyflawn ac nid oedd gan dri o'r ymgeiswyr gysylltiad lleol. Roedd hyn yn gadael pedwar y gellid eu cyfweld.

2.5 Bydd panel cyfweld yn cyfweld ymgeiswyr ym mis Chwefror 2022. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

2.6 Yn unol â pharagraff 3.4.8.2.2 y Cyfansoddiad, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymell penodi'r aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 19 Ebrill 2022.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r tri aelod lleyg ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 ymlaen.